| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Mehefin 2015** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Archwilio** |
| **Teitl:** | **Galw i mewn benderfyniad y Cabinet, dyddiedig 2 Mehefin 2015, yn gysylltiedig ac Ysgol Rhewl** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I ystyried penderfyniad y Cabinet ar 2 Mehefin 2015 i gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor yr adeiladau ysgol newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I geisio archwilio i ystyried y cais fod penderfyniad y Cabinet mewn perthynas ag Ysgol Rhewl yn cael ei adolygu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor:

3.1 ystyried y rhesymau a roddwyd dros wneud cais am adolygiad o benderfyniad y Cabinet, ac

3.2 ar ôl ystyried y wybodaeth a ddarparwyd dylid penderfynu os oes angen cyfeirio rhinweddau'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, ac os felly dylid cynnwys sail i'r dystiolaeth dros wneud yr atgyfeiriad.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Penderfynodd Cabinet Sir Ddinbych yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2015 i:

*"(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Rhewl, a*

*(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor yr adeiladau ysgol newydd. ."*

4.2 Cyhoeddwyd y penderfyniad uchod ar wefan y Cyngor ar 3 Mehefin 2015, ac yn unol â Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor (Atodiad 1), nad oedd y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith fel bod aelodau sydd ddim yn y

Cabinet yn gallu galw'r penderfyniad i mewn i'w archwilio, os oeddent o'r farn bod angen archwilio'r penderfyniad ymhellach. Er mwyn hwyluso penderfyniad i gael ei alw i mewn rhaid i bum aelod o'r cyngor sydd ddim yn y Cabinet lofnodi ffurflen hysbysiad galw i mewn.

4.3 Derbyniwyd ffurflen 'Hysbysiad Galw i Mewn' wedi'i lofnodi gan y nifer gofynnol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau Cabinet, ar 8 Mehefin 2015. Fe welir yn Atodiad 2 y rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn. Gofynnir i'r Aelodau benderfynu, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir iddynt, os yw'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol, ac os felly ar ba sail.

4.4 Gan fod penderfyniad y Cabinet ar 2 Mehefin yn ymwneud â darpariaeth addysg y Cyngor, caniateir i'r aelodau cyfetholedig statudol dros addysg ar bwyllgorauarchwilio'r Cyngor gyfrannu wrth ystyried y mater hwn fel aelodau pleidleisio llawn o'r Pwyllgor.

4.5 Mae dolen gyswllt at y copïau o'r adroddiad a'r atodiadau gafodd eu hystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin wedi ei anfon at aelodau'r pwyllgor. Gellir eu gweld hefyd ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen isod: https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=281&MId=5229&LLL=1

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 2 Mehefin 2015.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 2 Mehefin 2015.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 2 Mehefin 2015.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Gweler yr adran a'r atodiadau perthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 2 Mehefin 2015.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 2 Mehefin 2015.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 2 Mehefin 2015

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 21, Deddf Llywodraeth Leol 2000
Erthygl 6.3.2 (ch) o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Ffôn: 01824 712554
E-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk